PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 15 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Jacobsen, Mackie a/ac McKerlich |

94 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jim Murphy.

95 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Bowen-Thompson ddiddordeb personol yn Eitem 4 am ei bod yn Brif Swyddog Gweithredol ar yr elusen diogelwch cymunedol Cymru Ddiogelach.

96 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017 a 4 Hydref 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

97 : BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CYNLLUN LLESIANT DRAFFT CAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd y tystion canlynol i'r cyfarfod pwyllgor:

- **Cyngor Caerdydd,** Huw Thomas, Arweinydd a Chadeirydd BGC Caerdydd, a Paul Orders, Prif Weithredwr;
- **Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro,** Maria Battle, Cadeirydd, a Fiona Kinghorn, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd;
- **Cyfoeth Naturiol Cymru,** Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru;
- **Gwasanaeth Tân De Cymru,** David Bents, Rheolwr Grŵp.
- **Heddlu De Cymru,** Uwch-arolygydd Stephen Jones;
- **Cyngor Trydydd Sector Caerdydd** (C3SC), Sheila Hendrickson-Brown, Prif Weithredwr.

Cynghorwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd yn unol â chyfrifoldeb statudol dros graffu ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, bod hyn yn gyfle i ystyried y Cynllun Llesiant drafft ar gyfer Caerdydd, sydd allan ar gyfer ymgynghori arno ar hyn o bryd. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod pob corff cyhoeddus yn rhwym i ddyletswyddau newydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'i ddiben yw sicrhau ein bod yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol, ac yn cyrchu nod cyffredin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr holl bartneriaid i amlinellu yr heriau allweddol sy'n wynebu eu sefydliadau wrth gyflawni eu cyfraniad i'r Cynllun Llesiant, a sut y gallai gweithredu ar y cyd eu cynorthwyo i drechu'r heriau hynny.

Nododd yr Arweinydd fel Cadeirydd y BGC ac Arweinydd y cyngor, ei fod yn gweld y BGC a threfniadau partneru yn greiddiol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol. Ychwanegodd fod y partneriaid oll yn wynebu heriau megis pwysau twf a newidiadau demograffig yn ogystal a chyni economaidd sy'n parhau, a'r rhan fwyaf ohonynt yn galw am ymatebion aml-asiantaethol. I sicrhau twf, mynd i'r afael a thlodi a diogelu pobl sy'n agored i niwed mae yna angen i gael mwy o weithio mewn partneriaeth. Dywedodd fel Arweinydd i gyflawni rhaglen Uchelgais Prifddinas ei fod yn gweld yr angen i weithio gyda phartneriaid, ac y byddai'r Cynllun Llesiant wedi ei alinio'n agos iawn â hyn. Er mwyn sicrhau y rhain, rhaid bod trefniadau llywodraethiant yn eu lle ac mae'r cynllun drafft yn caniatáu ar gyfer adolygu'r llywodraethiant hwnnw; dylai fod wedi ei alinio'n agos iawn a threfniadau llywodraethiant mewnol a'r Cynllun Uchelgais Prifddinas.

Palodd y cyfarfod BGC ym Mehefin yn ddwfn i'r data Anghyfartaledd parthed Trelái a Chaerau a'r pwysau ar wasanaethau perthnasol o'r ardaloedd hyn. Rhoddodd pob sefydliad eu barn, ac ystyriwyd bod newid ar arfer ar y 10 mlynedd diwethaf yn angenrheidiol ac y dylid canolbwyntio ar Ymagwedd Plant yn Gyntaf. Yn y cyfarfod ym mis Medi, arweiniodd Cyfoeth Naturiol Cymru weithdy ar dwf poblogaeth, a oedd yn cynnwys mynd am dro o amgylch project Grangetown Werddach a ffocws ar Seilwaith Gwyrddach ar gyfer y dyfodol. Nododd yr Arweinydd fod y Cynllun Llesiant a'r trefniadau cyflawni yn gweithio ac yn hanfodol i'r modd y mae Cyngor Caerdydd yn darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y BGC yn sefyll ar gorff da o weithio mewn partneriaeth sydd wedi cryfhau fwyfwy a rhoddodd enghreifftiau o Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Datblygu Addysg, PREVENT ac Ymrwymiad Caerdydd a nododd y byddai momentwm i'w weld mewn meysydd eraill gan gynnwys Rheoli Asedau. Sicrhaodd fod y BGC yn sefyll ar gorff da o weithio mewn partneriaeth.

Cytunodd Maria Battle fod yr holl bartneriaid yn wynebu heriau tebyg megis cynnydd yn y galw, twf poblogaeth, poblogaeth gynyddol hŷn, gwelliannau mewn technoleg gofal feddygol ac oll dan gyfyngiadau ariannol. Ychwanegodd bod ffocws cryf ar symud gwasanaethau i'r Gymuned fel bod gan bawb gyfle cyfartal lle bynnag y bônt yn byw. Roedd gwtneriaeth agos er mwyn dod ag iechyd i'r Gymuned drwy gyfrwng y Cynllun Llesiant a Hybiau Iechyd a Llesiant megis y rhai yn Ysbyty'r Brifysgol, Maelfa a Threlái a fyddai'n cydleoli gyda'r awdurdod lleol a'r heddlu er mwyn gwneud cyrchu gwasanaethau yn y gymuned yn rhwydd. Mae hi o'r farn fod y Cynllun Llesiant yn chwalu'r rhwystrau i allu gwneud hyn a bod yna ymrwymiad gwirioneddol gan bartneriaid i fynd â hyn ymlaen.

Ategodd Fiona Kinghorn sylwadau blaenorol o weithio cryf mewn partneriaeth; ychwanegodd fod y Cynllun Llesiant yn meddu ar nod a gweledigaeth i wneud cyrchu gwasanaethau yn deg ym mhob cwr o Gaerdydd. Bydd gweithio ar y cyd yn golygu rhannu syniadau i siapio'r strategaeth, a fyddai'n cynnwys rhaglen o gamau gweithredu, gyda'r GIG ond yn un o'r dylanwadau Allweddol yr oedd eu hangen. Mae gweithio ar y cyd yn galluogi ar gyfer Gofal Sylfaenol ar y cyd â, er enghraifft, y CDLl. Rhoddwyd enghreifftiau pellach o weithio ar y cyd gan gynnwys Prentisiaethau a'r agenda Pobl Hŷn ac Atal.

Ategodd David Bent yr hanes cryf o weithio mewn partneriaeth gydag enghreifftiau o Diogelwch Cymunedol, Addysg a Diogelwch i Blant yn arwain at Oedolion Diogelach;

gan nodi fod y llwyddiant parhaus yma yn brif amcan. Ychwanegodd fod Gwiriadau Diogelwch Cartref yn cael eu rhannu gyda phartneriaid. Roedd Her tannau bwriadol a damweiniol mewn anheddau yn parhau yn flaenoriaeth ac roedd gweithio partneriaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â hyn. Amlinellwyd yr ymwneud â hyfforddiant Trais Domestig, Diogelu a Demensia.

Nododd Gareth O'Shea mai'r brif her oedd cael CNC yn ganolog i'r trafodaethau BGC a chael CNC a'r Amgylchedd i gael eu gweld fel darparwr gwasanaeth yn hytrach na rhan o'r broses gynllunio neu hyd yn oed 'rwystr' i gyflawni pethau yn y Ddinas. Her arall a nodwyd oedd y gallu i weithio ar raddfa; nid yw CNC yn sefydliad anferth ond mae angen iddo weithio drosa Gymru gyfan. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i CNC a'r Amgylchedd fod wedi eu hintegreiddio i gyflawni'r cynllun gweithredu ac wedi eu cynnwys mewn datblygiadau yn y dyfodol, cael cydnabyddiaeth i seilwaith gwyrdd a'i gael yn iawn a mynd i'r afael ag e ar y cyd ymlaen llaw.

Nododd Stephen Jones yr her nad oedd 70% o'r galw ar amser Heddlu De Cymru yn ymwneud â throseddau, felly roedd cymhelliant i weithio gyda phartneriaid i reoli hynny a datblygu ymyriadau ac arwyddo ar gyfer y gwasanaethau priodol. Rhoddodd enghraifft o'r llwybr 18-25 a oedd yn profi traw effeithiau real. Parthed amddifadedd a bod yn agored i niwed, roedd ffocws ar siapio gwasanaethau, cynnydd sylweddol o ran nifer staff yn yr adran diogelu pobl agored i niwed, darparu ymyriadau amserol, delio â phroblemau heddiw mewn modd llawer mwy cydlynol gan gynnwys gwasanaethau a oedd wedi eu cyd-leoli. Nodwyd her arall fel gofyniad Polisi Strategol gyda HDC yn mynychu dros 400 o brif ddigwyddiadau y flwyddyn a'r pwysau ddaw yn ei sgil y gellid mynd i'r afael ag ef, heb gymorth a chefnogaeth partneriaid a chydweithwyr.

Nododd Sheila Hendrickson-Brown ar gyfer y trydydd sector y gwelwyd ymateb cadarnhaol ar gyfer yr ymagwedd y mae'r cynllun Llesiant yn ei greu; roedd uchelgais i newid y modd y cai pethau eu gwneud a sut y gallai'r trydydd sector ddylanwadu ar hynny. Roedd heriau parthed ariannu gyda phoblogaeth oedd yn cynyddu ac adnoddau a oedd yn lleihau. Roedd hi'n hanfodol bod y trydydd sector yn cael ei ystyried yn bartner cydradd yn nhrefniadau a chyflawniad y cynllun; gyda'i arbenigedd mewn pobl anos eu cyrraedd a pgobl ddifreintiedig yn cael ei gydnabod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tystion am eu cyfraniadau a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Holodd Aelodau sut y gellid gwneud uchelgeisiau'r cynllun yn gyfleoedd ac nid yn faich. Nododd yr Arweinydd nad oedd yn ei weld fel baich, roedd angen cael pethau yn iawn neu byddai darparu gwasanaethau yn anghynaladwy a byddai'r canlyniadau materol i bobl y Ddinas yn gwaethygu. Roedd yn gweld y cynllun fel cyfle i ddiwygio gwasanaethau a gwella ansawdd bywyd yn faterol i bobl Caerdydd.

- Holodd aelodau os oedd unrhyw enghreifftiau o drefniadau newydd darparu gwasanaethau a oedd yn adlewyrchu agwedd integredig i ddarparu'r amcanion a pha fodd y gellid mesur y canlyniadau. Rhoes yr Arweinydd enghraifft o Hyb Diogelu Amlasiantaethol (HDA) a'r modd y caiff gwasanaethau yno eu plethu. O ran mesur cynnydd, eglurodd y byddai set o fesuriadau yn erbyn pob amcan yn y cynllun, gan ychwanegu nad oeddent oll

o fewn gallu'r BGC ond bod modd monitro os oedd pethau yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn y Ddinas.

- Holodd aelodau os byddent yn cael gweld y targedau ac yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Eglurodd y Prif Weithredwr ei bod yn broses ddilyniannol, caiff y cynllun ei sefydlu, yna ceir ymarferiad er mwyn sicrhau fod partneriaeth gyflawni yn ei le a'i fod yn effeithiol yn codi gwahanol amcanion. Roedd yn anodd gosod rhai targedau ar Lefel Y Ddinas Gyfan, megis allyriadau CO2 a GDA, tra bod eraill yn gwbl fesuradwy ac y byddent yn cael eu gosod ar gyfnod cynnar yn y broses. Parthed ymgynghoriad cyhoeddus, cynghorwyd Aelodau ar gyfer pwyntiau penodol bod tystiolaeth sylweddol yn y DU y gellid ei defnyddio i osod targedau, roedd amserlen statudol i weithio iddi, unwaith bod set gyflawn o gynlluniau cyflawni a gweithredu yn eu lle yna gellid ymgynghori arnynt. Holodd aelodau os oedd methodoleg yn seiliedig ar ganlyniadau i gael ei ddefnyddio ac fe'i hysbyswyd na ddefnyddid hwn yn ffurfiol ond bod athroniaeth ymagwedd defnyddio data yn ganolog.

- Gofynnodd aelodau sut oedd sicrhau fod sefydliadau unigol yn alinio eu fframweithiau polisi i'r ymrwymiadau yn y Cynllun Llesiant. Nododd yr Arweinydd o safbwynt y Cyngor fod cyswllt cryf rhwng y Cynllun uchelgais Prifddinas a'r Cynllun llesiant, ystyriai fod pawb ar y lefel uchaf yn credu ynddo ac yn teimlo perchnogaeth drosto. Ategwyd y farn hon gan Maria Battle a Gareth O'Shea a oedd o'r farn fod eu sefydliadau hwy wedi alinio yn dda.

- Holodd Aelodau os oedd ei gyllid ei hun gan y BGC neu os oedd pob partner yn ymwneud ag uchelgeisiau sy'n berthnasol iddynt hwy. Eglurodd yr Arweinydd nad oedd cyllideb canolog y tu hwnt i'r ysgrifenyddiaeth, sef pam fod alinio polisi yn bwysig. Ychwanegodd ei fod yn ymwneud fwy â sut y mae gweithgareddau presennol yn cael eu cyfarwyddo i weithio'n fwy cydweithredol ac y byddai mwy o fanylion ar yr arian yn cael eu cyflwyno ar adeg cynigion y gyllideb. Cyfeiriodd Aelodau at Amcan 1 ' Prifddinas sy'n gweithio i Gymru' ac roeddent o'r farn fod ychydig o ddiffyg cyswllt rhwng yr amcan a'r ymrwymiadau parthed datblygu economaidd. Holodd Aelodau sut oedd modd sicrhau fod buddion economaidd i Gaerdydd yn fuddion economaidd i Gaerdydd gyfan ac hefyd yn gallu bod o fudd i weddill Cymru.

- Nododd yr Arweinydd fod Amcan 1 yn cydnabod perfformiad economaidd, marchnadwyedd a swyddogaeth Caerdydd fel peiriant economaidd ar gyfer gweddill Cymru. Nododd o safbwynt y pen, mai Caerdydd oedd un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru a oedd yn derbyn y lleiaf o gyllid; bod £90 miliwn o'i ardrethi busnes yn mynd y tu allan i Gaerdydd a bod 90,000 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob dydd, gan integreiddio economïau fel bod Caerdydd eisoes yn gweithio dros Gymru. Ychwanegodd fod Caerdydd yn chwarae ie ran yn cyrraedd targedau Cymru gyfan a osodwyd gan Lywodraeth Cymru megis nifer y siaradwyr Cymraeg. Parthed Caerdydd gyfan yn cael budd, Dywedodd Fiona Kinghorn bod gwaith yn cael ei wneud ar asesiadau anghenion mewn rhannau o'r Ddinas ac fe roes enghraifft Plant yn Gyntaf yn Nhrelái/Caerau. Ychwanegodd yr Arweinydd fod gwaith i gael ei wneud i sicrhau y byddai pawb yn cael budd o ddigwyddiadau mawr ayb, a dywedodd hefyd fod symudiad i ffwrdd o ganolfannau busnes y tu allan i'r dref gan roi

esiampl y Sgwâr Canolog yng nghanol Caerdydd, yn hygyrch i bawb drwy drafnidiaeth gyhoeddus.

- Cyfeiriodd aelodau at Amcan 3 ac ymrymuso cymunedau gan holi os byddai'r BGC yn sicrhau fod cymunedau yn cyfrannu'n effeithiol ac ystyrlon at siapio a chyflawni'r cynllun a'r modd y gellid cynnwys cymunedau anodd eu cyrraedd. Cynghorwyd aelodau y ceid ymgynghori ar-lein yn ogystal â grwpiau ffocws wedi eu lleoli ar draws y ddinas a fyddai'n bwydo i'r cynllun. Ychwanegodd Stephen Jones eu bod fel gwasanaeth yn cydnabod nad ydynt yn adlewyrchu'r gymuned y maent yn ei wasanaethu, felly maent wedi sefydlu Gr?p Gweithlu Cynrychioliadol, maen nhw'n recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n uniongyrchol o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae rhaglenni cydlyniad cymunedol ar waith ganddynt ac yn gwneud y gorau ar bob cyfle y gallant er mwyn bod yn fwy cynrychioliadol o farn bobl eraill gyda help y trydydd sector sydd â phrofiad helaeth o hyn.

- Nodd Aelodau yr hanes cryf o weithio mewn partneriaeth a holi am eglurder ar sut fod hwn yn newid mawr. Dywedodd yr Arweinydd mai y newid arwyddocaol oedd y cyswllt deublyg rhwng amcanion y cynllun llesiant ac uchelgais wleidyddol Uchelgais Prifddinas, bod hanes gweithio mewn partneriaeth yn gryf ond ei bod hi'n bwysig peidio gorffwys ar rwyfau.

- Tybiai aelodau fod peth dryswch rhwng Ymrwymiadau a Dangosyddion Canlyniadau. Dywedodd swyddogion y gellid adolygu'r rhain am eu bod yn dal i ymgynghori arnynt.

- Parthed y derminoleg, nododd yr Aelodau'r term 'rheoli twf poblogaeth' gan dybio y dylai hwn ddweud rheoli effaith twf poblogaeth'. Roedd swyddogion yn cytuno â'r newid hwn.

- Roedd Aelodau yn pryderu am absenoldeb Busnes Sector Preifat ac Elusen yn y ddogfen a bod angen i'r rhain gael eu hystyried yn y dangosyddion canlyniadau. Dywedodd yr Arweinydd mai un uchelgais i Uchelgais Prifddinas fyddai partneriaeth â'r sector breifat, gan ychwanegu nad oedd hi'n ddogfen gaeedig, bod y geiriau yno ac y byddai'n mynd rhagddi. Ychwanegodd Maria Battle fod yna ymrwymiad amlwg i weithio mewn partneriaeth gyda phawb ac os nad oedd hyn yn glir yn y ddogfen yna mater o ddrafftio oedd hynny yn hytrach nag o arfer. Ychwanegodd Sheila Hendrickson-Brown fod y bartneriaeth â'r trydydd sector yn gadarnhaol ac y byddent yn adeiladu ar yr hyn oedd wedi ei gyflawni eisoes, gan ychwanegu bod enghreifftiau o'r hyn y buont yn rhan ohonynt wedi eu nodi a bod yr ymrwymiad yno.

- Holodd Aelodau parthed gweithio'n gryf mewn partneriaeth, ym mha fodd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i fwydo darparu gwasanaethau integredig trwy gyfrwngy partneriaid. Nododd yr Arweinydd fod gan bob sefydliad record cryf o edrych ar arfer gorau.

- Holodd Aelodau os byddai'r Cynllun llesiant yn destun asesiad Effaith ar Iechyd. Dywedodd Fiona Kinghorn y byddai, bod yna wahanol lefelau lle gellid ei wneud ac y byddai'n cael ei groesawu, yn enwedig adeg cynllunio am ei fod yn bwydo'r broses o osod targedau hefyd. Ymrwymodd yr Arweinydd i edrych ar hyn.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, a nodwyd y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

98 : CYFLAWNI UCHELGAIS PRIFDDINAS (I DDILYN)

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd, a Paul Orders, Prif Weithredwr, i gyflwyno'r eitem.

Cynghorwyd Aelodau fod hyn yn gyfle i fwydo'r Ymgynghoriad ar y Polisi, y byddai'r eitem yn dod ger bron y Pwyllgor fel eitem cyn penderfynu ym mis Rhagfyr.

Gwahoddodd y cadeirydd yr Arweinydd i roi datganiad lle dywedodd ei fod yn ystyried yr eitem i fod yn eitem cyn penderfyniad cynnar, doedd dim adroddiad, dim ond cyflwyniad ond bod hwnnw yn cyfeirio at y cynnwys a ragwelir ar gyfer yr adroddiad hwnnw. Ychwanegodd fod yr eitem yn amserol iawn ac yn ddefnydd da ar amser craffu.

Rhoddwyd cyflwyniad i Aelodau a oedd yn amlinellu Ailalinio'r Cynllun Corforaethol a'r Gyllideb; Alinio gyda'r fframwaith partneriaeth (gan gynnwys y PGC a'r Cynllun Llesiant) a sefydlu Rhaglen Gyflawni Uchelgais Prifddinas 4 blynedd.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Holod Aelodau os oedd cyfle i integreiddio y Cynllun Corfforaethol, rhaglen Gyflawni Uchelgais Prifddinas a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol yn un ddogfen Strategol. Cynghorodd y Prif Weithredwr y byddai Rhaglen Gyflawni Uchelgais Prifddinas yn bwydo i'r Cynllun Corfforaethol sef dogfen gynllunio allweddol yr awdurdod.

- Cyfeiriodd Aelodau at y pennawd a oedd yn ymrwymo i gynnig ysgol ragorol i bob plentyn yng Nghaerdydd ond gan nodi nad oedd unrhyw fanylion pellach megis dyddiadau a pha ysgolion y tybid eu bod yn rhagorol. Nododd y Prif Weithredwr y ceid mwy o wybodaeth mewn adroddiadau dilynol, bod angen ymarferiad gosod targedau i gychwyn a bod angen i hwn fod yn briodol heriol.

- Cyfeiriodd Aelodau at adolygiadau sylfaenol gan nodi yn y gorffennol bod rhai meysydd megis Rheoli Gwastraff wedi eu hesgusodi rhag craffu. Holodd Aelodau os fyddai adolygiadau sylfaenol yn y dyfodol yn systematig neu'n ddewisol. Dywedodd yr Arweinydd y byddent yn systematig el y bo'n briodol i gyflawni'r uchelgeisiau wedi eu cynnwys yn y cynllun Uchelgais Prifddinas; rhoddid blaenoriaeth fodd bynnag i feysydd allweddol.

- Roedd Aelodau o'r farn bod rhywfaint o ddiffyg cyswllt rhwng yr hyn a fu yn y gorffennol a chyfeiriwyd at danfuddsoddi hanesyddol ar ffyrdd a diddymu

Cyngor Busnes Caerdydd. Dwedodd yr Arweinydd y gwelwyd allbwn perfformiad amlwg o safbwynt ffyrdd ond bod angen mwy a bod angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer hyn. Dywedodd ei fod yn cytuno â'r penderfyniad i ddiddymu Cyngor Busnes Caerdydd, mae wedi cwrdd â'r cyn-Gadeirydd i drafod sut y gallent gydweithio â'i gilydd yn y dyfodol. Cafwyd manyleb fforwm Busnes gan Lywodraeth Cymru, yr oedd y cynghorydd Goodway yn gweithio arno i'w roi ar waith; byddai hyn yn ychwanegu at ac nid yn cystadlu yn erbyn y gwaith rhanbarthol i gefnogi'r Fargen Ddinesig.

- Gofynnodd Aelodau am fyw o wybodaeth ar gynllun i ddatblygu achos busnes ar gyfer cartref newydd i Neuadd y Sir ac a gafwyd dadansoddiad cost budd. Eglurodd yr Arweinydd nad oedd llawer o fanylion ar hyn o bryd ar hyn; fod y Neuadd Sir presennol yn costio £2.3 miliwn y flwyddyn i'w redeg, nad oedd yn cynnwys costau cynnal a chadw a oedd yn cynyddu. Roedd cyfle i edrych ar achos busnes ar gyfer Neuadd Sir newydd a sut y byddai hwn yn cyfoethogi projectau Datblygu Economaidd eraill yn y Ddinas.
  Holodd Aelodau os oedd unrhyw fanylion ar leoliadau posib a pha brojectau Datblygu Economaidd; eglurodd yr Arweinydd nad oedd manylion ar hyn o bryd, byddai yr un model ag a arweiniodd at ddatblygu'r Neuadd Sir presennol ac y câi ei yrru gan agenda a fyddai'n gosod staff mewn llai o adeiladau a gwireddu arbedion yn sgil hynny.

- Nododd Aelodau y cafwyd cefnogaeth ar draws y cyngor ar gyfer y rhaglen gyflawni newydd yn cynnwys staff a oedd yn ymddangos yn gadarnhaol, a holwyd os byddai hyn yn parhau ac os felly sut fyddai hyn yn datblygu. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gweld y Cyngor fel sefydliad a gaiff ei arwain yn wleidyddol a'i reoli'n broffesiynol, bod y rhyngweithio â'r staff yn allweddol ac na ellid gwireddu agenda'r Cyngor hebddynt. Cafwyd digwyddiadau ymgysylltu diweddar â staff a oedd wedi cynnwys holl Aelodau'r Cabinet, fod hyn wedi dechrau rhaglen o ymgysylltu parhaus â staff i wrando a chlywed eu pryderon. Ychwanegodd ei bod yn bwysig grymuso'r staff a dod o hyd i ddulliau o wneud i hynny ddigwydd.

- Cyfeiriodd Aelodau at arbedion yn deillio o Digideiddio a holi sut oedd hyn yn cael ei gloriannu yn Uchelgais Prifddinas, yn enwedig pan y gallai digideiddio o bosib fod yn broject deng mlynedd a bod y cymhlethdodau ychwanegol o ran cyfieithu i'r Gymraeg. Ystyriai'r Arweinydd fod hyn yn bwynt teg gan nodi heriau Dwyieithrwydd yn enwedig ar gyfer Porthol Cynllunio'r cyngor; dywedodd nad oedd yn her y gellid ei goresgyn dros nos ond y gellid adeiladu rhaglen newid ar sail yr amcanion, gosod cerrig milltir a'r oll wedi eu bwydo a derbyn mandad yn sgil y cyfeiriad Polisi. Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai un dasg oedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, bod haenen o ddigideiddio ar waith ond ei bod yn broses caib a rhaw i raddau helaeth o hyd; roedd Derbyn i ysgolion bellach ar-lein ond bod y prosesau oedd yn sail iddo yn seiliedig ar waith papur; roedd yna gwestiynau mawr ynghylch awtomeiddio prosesau o un pen i'r llall a bod angen mwy o waith ar hyn.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

99 : BUSNES Y PWYLLGOR

Cynghorwyd yr Aelodau fod tri is-grŵp ar waith a rhoddwyd diweddariad iddynt ar gynnydd y grwpiau fel a ganlyn:

Rheoli'r Ystâd a'r Model landlord Corfforaethol – roedd y cyfarfod cyntaf wedi rhoi cyfle i drafod y cwmpas a'r adroddiad paratoi; byddai tystion sy'n darparu arweiniad gwleidyddol yn mynychu a byddai mewnbwn i ddarparu gwybodaeth gefndir allweddol. Byddai John Dunne yn mynychu'r ail gyfarfod a chynghori ar arfer gorau. Byddai'r trydydd cyfarfod yn edrych ar restr waith cynnal a chadw ôl-gronnol yr Ystâd Addysg. Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn awyddus i gynhyrchu adroddiad wedi ei dargedu gyda nifer fechan o argymhellion cryno, gan edrych ar y modd yr oedd y mater yn effeithio ar breswylwyr.

Arweinyddiaeth Cwsmeriaid – cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Nhŷ Willcox a derbyniwyd tystiolaeth gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid; ystyriwyd y byddi tystiolaeth fewnol pellach yn ddefnyddiol. Byddai'r ail gyfarfod yn clywed tystiolaeth gan y prif weithredwr a Matt Wakelam, gyda thystiolaeth allanol gan Mike King, uwch reolwr yn Admiral, a thystiolaeth bosib gan Nwy Prydain, Dŵr Cymru a'r ganolfan gyswllt Gymraeg.

Panel Perfformiad – byddai hwn yn cwrdd yn chwarterol i edrych ar Berfformiad Corfforaethol, byddai unrhyw feysydd pryder yn cael eu codi i'r prif bwyllgor. Roedd aelodau'r panel wedi cwrdd â Joe Reay ac wedi amlinellu eu disgwyliadau a gofyn i feysydd pryder arwain at ddechrau'r broses. Roedd y cyfarfod cyntaf wedi ei amserlennu ar gyfer 29 Tachwedd 2017, byddai aelodau panel yn derbyn hyfforddiant i ddehongli'r adroddiadau perfformiad.

100 : UNRHYW FUSNES ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Amserlenwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 6 Rhagfyr 2017 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.46 pm